

|                     |                                                                             |
|---------------------|-----------------------------------------------------------------------------|
| <b>CYFARFOD</b>     | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth                                         |
| <b>DYDDIAD</b>      | 3 Tachwedd 2026                                                             |
| <b>TEITL</b>        | Diweddariad - Gwaith Uwchraddio systemau'r Siambrau                         |
| <b>PWRPAS</b>       | Cyflwyno diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i uwchraddio'r Siambrau |
| <b>ARGYMHELLIAD</b> | <b>Nodi a derbyn yr adroddiad.</b>                                          |
| <b>AWDUR</b>        | Annes Siôn<br>Arweinydd Tîm Democratiaeth                                   |

1. Yn ôl ym mis Gorffennaf bu i chi fel Cyngor dderbyn Adroddiad Blynnyddol y Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth ar gyfer 2025/26. Yn yr adroddiad hwnnw nodwyd fod diweddaru'r adnoddau yn y Siambrau yn un o'r blaenoriaethau ar gyfer 2026/27.
2. Mynegwyd y bydd y prosiect yn dilyn y trefniadau caffael angenrheidiol er mwyn diweddaru'r cyfarpar yn y siambrau gan sicrhau galluogi cyfieithu ar y pryd, mynediad o bell, pleidleisio a gwe ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor o'r siambrau. Nodwyd hefyd ein bod am sicrhau fod y profiad i ddefnyddwyr y siambrau, i bobl Gwynedd sy'n gwyllo'r gwe ddarllediadau ac i staff y Cyngor sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r system am fod yn hawdd i'w ddefnyddio ac effeithiol.
3. Mae hyn yn dilyn nifer o broblemau gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, sydd a rhai elfennau yn dyddio yn ôl i 2012, gyda phroblemau sain yn benodol yn Siambr Dafydd Orwig wedi ei amlygu fwy fwy dros y misoedd diwethaf.
4. Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i chi ar y gwaith.
5. Mae'r Aelodau Cabinet bellach wedi comisiynu darn o waith i edrych ar y farchnad ac i gael gwybodaeth o ran dyfynbrisiau er mwyn gwneud y gwaith. Er mwyn cwblhau'r gwaith sefydlwyd grŵp prosiect yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, Pennaeth Cynorthwyol - Digidol a Thechnoleg a Swyddogion o'r maes Technoleg Gwybodaeth, Tai ac Eiddo a Democratiaeth ac Ilaith.
6. Mae'r Grŵp Prosiect dros y misoedd diwethaf wedi bod yn gweithio ar fanyleb dechnegol a fydd yn diwallu'r holl anghenion ar gyfer y siambrau. Bydd Digwyddiad Ymgysylltu â'r Farchnad Gyflenwyr yn cael ei gynnal dros yr wythnosau nesaf er mwyn i ddarpar gyflenwyr posib weld anghenion y Cyngor ar gyfer adnoddau yn y Siambrau drostynt eu hunain. Mae hyn yn gam arferol cyn cychwyn y broses tendr swyddogol, ac yn arwain at dendrau mwy manwl a chywir fel arfer.

Byddwn yn eich diweddaru o'r gwaith paratoi drwy adroddiadau cyson i'r pwyllgor yma.

7. Rhagwelir y camau nesaf ar gyfer cyflawni'r gwaith fel y nodi'r isod.
  - Caffael cyn y Nadolig
  - Cytuno a gytundeb ym mis Ionawr / Chwefror
  - Paratoi i wneud y gwaith erbyn yr Haf.

**8. PENDERFYNIAD A GEISIR**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi a derbyn yr adroddiad.**